Annwyl Aelod Grŵp Pysgodfa Leol

**Cynigion ar gyfer Is-ddeddfau Cymru gyfan: cyhoeddi Ymchwiliad Lleol**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet, Lesley Griffiths AC, bellach wedi cytuno ar y camau nesaf mewn perthynas ag is-ddeddfau arfaethedig 'Cymru gyfan' pysgota gwialen a rhwyd 2017, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau ar 20 Chwefror 2018.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei chasgliad, o ystyried "lefel yr ymateb i'r ymgynghoriad, nifer y gwrthwynebiadau i gynigion ar gyfer yr is-ddeddfau oedd heb eu bodloni a natur yr ohebiaeth" mai'r "cam mwyaf priodol fyddai cynnal Ymchwiliad Lleol a fydd yn caniatáu archwiliad annibynnol o gynigion CNC".

Felly, gofynnwyd i Arolygiaeth Gynllunio Cymru gychwyn Ymchwiliad Lleol o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Ar ddiwedd yr Ymchwiliad, bydd yr Arolygydd Cynllunio yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru a fydd yn cyfarwyddo eu penderfyniad terfynol ar y cais am gadarnhad o'r Is-ddeddfau.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio ar hyn o bryd yn cysylltu â phawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad gan roi manylion pellach am yr Ymchwiliad Lleol a'r hyn y mae angen i ymatebwyr ei wneud os dymunant fod yn bresennol, erbyn 19 Medi.

Pan gadarnheir manylion yr Ymchwiliad (dyddiad a lleoliad), byddwn yn hysbysebu'r manylion ac yn diweddaru ein rhanddeiliaid tua chwech wythnos cyn yr Ymchwiliad. Croesawn y cyfle i gyflwyno ein hachos a'n tystiolaeth i'r Ymchwiliad.